

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



**LLAWLYFR DEWISIADAU
BLWYDDYN 9 2018**

Cynnwys

	Tudalen
Llythyr gan y Pennaeth	2
Manylion Pynciol:	
Bagloriaeth Cymru	4
Cymraeg	5
Saesneg	7
Mathemateg	8
Gwyddoniaeth	9
Daearyddiaeth	11
Hanes	12
Astudiaethau Busnes	13
Almaeneg a Ffrangeg	14
Technoleg Gwybodaeth	15
Cyfrifiadureg	16
Electroneg	17
Drama	18
Astudiaethau Cyfryngau	19
Celf a Dylunio	20
Astudiaethau Crefyddol	21
Cerdd	22
Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch, Tecstilau a Fasiwn	23
Arlwyo a Lletygarwch	25
Addysg Gorfforol	26
Cyrsiau Galwedigaethol:	
Mecaneg Ceir *	27
Trin Gwallt a Harddwch *	28

Mae'r cyrsiau a nodir gyda * yn gyrsiau galwedigaethol sydd yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig yn y meysydd hyn. Mae'r holl gyrsiau eraill yn arwain at gymhwyster TGAU a ddyfernir gan y bwrdd arholi cenedlaethol CBAC. Ceir mwy o fanylion am bob cwrs ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

Llythyr gan y Pennaeth

Annwyl Riant/Warcheidwad,

DEWIS PYNCIAU

Bydd disgyblion Blwyddyn 9 yn gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â chyrsgiau TGAU. ac arholiadau eraill yn ystod y tymor hwn. 'Rydym yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn trefnu trwy gyfarwyddyd a chyngor personol bod gan bob disgybl gwricwlwm sydd mor eang a chytbwys â phosibl. Digwydd hyn eleni mewn cyfnod o newid cwricwlaidd sylweddol i bob disgybl yng Nghymru. Ym Medi 2015 cyflwynwyd cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gyfer holl ddisgyblion 14-19 oed. Yn ogystal, roedd newid sylweddol i fanylebau TGAU Iaith a Llên Cymraeg a Saesneg a Mathemateg a chyflwynir TGAU ychwanegol newydd Mathemateg – Rhifedd. Yn Medi 2016 a 2017 cyflwynwyd newidiadau i nifer o gyrsgiau allweddol, gan gynnwys Gwyddoniaeth, rhai Dyniaethau (Hanes, Daeryddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol) a phynciau creadigol (Cerddoriaeth, Celf a Drama). Bydd y gweddill yn newid eleni.

Darparwn felly :

- cwricwlwm craidd i bawb, sef Cymraeg Iaith a Llên, Saesneg Iaith a Llên, Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd, Gwyddoniaeth, Astudiaethau Crefyddol, Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg Gyrfaoedd a Bagloriaeth Cymru.
- cwricwlwm dewisol – anelwn at gynnwys ehangder, newydd-deb a chymwysterau ar lefelau anhawster gwahanol (TGAU, BTEC, ½TGAU, Llwybrau Mynediad, Cymwysterau Galwedigaethol) ar draws tair colofn opsiwn ar gyfer Medi 2018.

Nodiadau Ychwanegol

Gwyddoniaeth

*Bydd mwyafrif ein disgyblion yn dilyn cwrs **Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl TGAU** ym mlwyddyn 10 ac 11 sef cyfuniad o Ffiseg, Cemeg a Bioleg. Bydd eraill yn astudio ar gyfer Gwyddoniaeth Driphlyg. Bydd yr adran Wyddoniaeth yn seilio'r penderfyniad hwn ar gyrhaeddiad y disgybl yn y pwnc.*

Pwyntiau Ymarferol

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i esbonio ychydig o ganllawiau ymarferol :

- Dim ond un pwnc y gellir ei ddewis o unrhyw un golofn opsiwn. Y rheswm am y cyfyngu hyn yw bod pob pwnc mewn colofn opsiwn yn digwydd yr un pryd ar amserlen yr ysgol. Fel y sylweddolwch, mae dros fil o wersi gwahanol yn digwydd yng Nglantaf mewn wythnos lawn!
- Mae'n rhaid dewis un pwnc o bob colofn.
- Er mwyn cadw cydbwysedd, ni chaniateir dewis yr un pwnc fwy nag unwaith.
- Bydd athrawon pynciau newydd, y rhai nad ydynt ar gwricwlwm Blynyddoedd 7 - 9, yn esbonio natur a phwrpas y pynciau hynny i'r disgyblion mewn cyfarfodydd arbennig a drefnir ar eu cyfer yn yr ysgol.
- Dylech ddychwelyd y ffurflen ddewisiadau i'r Athro Dosbarth erbyn y dyddiad cau **fan**

bellaf.

- Gall ffurf derfynol yr opsiynau newid yn ôl galw ac amgylchiadau; os digwydd hyn, ni newidir polisi cwricwlwm yr ysgol, fel y'i ddisgrifir uchod.
- Ceir manylion llawn am y pynciau yn y llyfryn hwn. Mae cynnwys rhai pynciau yn cael eu hadolygu'n genedlaethol ar hyn o bryd, felly mae'n bosib bydd cynnwys rhai cyrsiau yn newid.
- Bydd copi o'r llyfryn ar gael ar wefan yr ysgol

Agwedd sylfaenol

Credwn mai'r egwyddor bwysicaf oll yw bod disgybl yn dewis y pynciau y mae'n eu mwynhau ac yn llwyddo ynddynt. Gall fod yn beryglus i ddechrau'r broses drwy ganolbwyntio ar yrfa gan ddewis y pynciau sy'n addas ar gyfer y swydd honno.

Ymholiadau pellach

Os oes anawsterau yn eich poeni, cysylltwch â'r Pennaeth Blwyddyn a fydd yn barod i'ch cynghori, er mwyn ceisio cael yr ateb gorau ar gyfer eich plentyn. Bydd yn medru estyn cyngor **y tu mewn i'r fframwaith a'r polisi a eglurwyd yn y llythyr hwn.**

Yn gywir,



Alun Davies

Pennaeth

BAGLORIAETH CYMRU

Cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gweddnewid dysgu i bobl ifanc yng Nghymru. Mae'n cynnig profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol, i gyd-fynd ag amrywiol anghenion pobl ifanc.

Ffocws canolog Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 yw darparu cyfrwng i rai 14-16 oed atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy feithrin sgiliau, priodoleddau a mathau o ymddygiad a gaiff eu gwerthfawrogi gan addysgwyr ôl-16 a darpar gyflogwyr.

Drwy Fagloriaeth Cymru, bydd y dysgwyr yn codi eu lefelau sgiliau a'u hyder gan eu galluogi i ymgymryd â'u rôl fel dinasyddion cyfrifol a gweithgar o fewn cymdeithas amrywiol. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymdeithas, y gymuned maent yn byw ynddi ac ymwybyddiaeth o faterion, digwyddiadau a phersbectifau byd-eang.

Cynnwys y Fagloriaeth

Bydd y gwersi bagloriaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau hyn a chyflawni'r dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r dystysgrif wedi ei hadeiladu o bedair ran:

Cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau	Pwysoli	Sgiliau a Asesir
Project Unigol	50%	<ul style="list-style-type: none"> Cynllunio a Threfnu Meddwl yn feirniadol a Datrys problemau Llythrennedd Digidol
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	<ul style="list-style-type: none"> Creadigedd ac Arloesi Effeithiolrwydd Personol Llythrennedd Digidol
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	<ul style="list-style-type: none"> Meddwl yn feirniadol a Datrys problemau Creadigedd ac Arloesi
Her y Gymuned	15%	<ul style="list-style-type: none"> Cynllunio a Threfnu Effeithiolrwydd Personol

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Genedlaethol Cymru, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol ynghyd â'r Cymwysterau Ategol canlynol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A* - C;
- TGAU Mathemateg – Rhifedd ar raddau A* - C;
- O leiaf dri chymhwyster TGAU arall ar raddau A* - C, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth.

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Sylfaen Cymru, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol neu Sylfaen ynghyd â'r Cymwysterau Ategol canlynol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A* - G;
- TGAU Mathemateg – Rhifedd ar raddau A* - G;
- O leiaf dri chymhwyster TGAU arall ar raddau A* - G, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth.

CYMRAEG

Dysgir Cymraeg i bob disgybl ym mlynnyddoedd 10 ac 11 ac mae gallu y disgyblion i fynegi eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl allweddol i'w llwyddiant mewn pynciau eraill yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Bydd bron pob disgybl yn dilyn cwrs TGAU Cymraeg Iaith, gyda'r mwyafrif hefyd yn astudio tuag at gymhwyster TGAU Llenyddiaeth Gymraeg.

Anelir at :

- datblygu diddordeb a brwdfrydedd y disgybl yn y Gymraeg
- cael y disgybl i gaffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cymryd ei briod le mewn cymdeithas ddwyieithog
- Meithrin defnydd effeithiol o iaith er mwyn galluogi'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg i fynegi'u hunain a chyfathrebu'n effeithiol.
- Datblygu'r sgil o gyfathrebu ar lafar er mwyn i'r disgyblion dyfu yn eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Datblygu'r sgil o ysgrifennu gan feithrin ymwybyddiaeth o'r gwahanol gyd-destunau y defnyddir iaith ynddynt a'r gallu i ddewis iaith briodol ar gyfer pob cyd-destun.
- Hybu darllen er mwyn pleser a mwynhad a'u cael i sylweddoli mai trwy ddarllen y cesglir gwybodaeth, yr adeiledir athroniaeth bersonol, y deuir i ddeall cymdeithas ac y datblygir geirfa newydd.

CYMRAEG TGAU : IAITH

1. <u>Llafar - 30%</u> a) Unigol : Cyflwyno Gwybodaeth b) Grwp : Mynegi Barn	Arholiad Allanol, Ebrill Blwyddyn 11
2. <u>Arholiad Ysgrifenedig 1 - 35%</u> a) Darllen – deall o leiaf un testun disgrifio, un naratif ac un esbonio (di-dor a phytiog). Asesir y darllen drwy ystod o gwestiynau strwythuredig. Bydd tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun byr ar lefel gair, brawddeg a thestun. b) Ysgrifennu - <u>un dasg ysgrifennu o ddewis o ddau</u> – tasg <u>ddisgrifio</u> , tasg <u>naratif</u> neu dasg <u>esbonio</u> . Bydd tasg prawf-ddarllen yn canolbwyntio ar ysgrifennu'n gywir. Bydd <u>hanner</u> marciau'r adran hon yn cael eu dyfarnu am safon iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu.	Arholiad Allanol, Haf Blwyddyn 11
3. <u>Arholiad Ysgrifenedig 2 - 35%</u> a) Darllen – deall o leiaf un testun <u>trafod</u> , un <u>cyfarwyddiadol</u> ac un <u>perswâd</u> (di-dor a phytiog). Asesir y darllen drwy ystod o gwestiynau strwythuredig. b) Ysgrifennu – <u>dwy</u> dasg ysgrifenedig – tasg <u>drafod</u> a thasg <u>berswâd</u> . Bydd <u>hanner</u> marciau'r adran hon yn cael eu dyfarnu am safon iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu.	Arholiad Allanol, Haf Blwyddyn 11

Mae'r arholiadau llafar ac ysgrifenedig yn ddi-haen : A* - G

CYMRAEG TGAU : LLENYDDIAETH

<p>1. <u>Arholiad Barddoniaeth - 25%</u> Gwerthfawrogi a chymharu un o'r cerddi gosod â cherdd na fydd y disgybl wedi'i gweld o'r blaen. Haen Uwch -10 cerdd, Haen Sylfaenol- 6 cerdd</p>	<p>Arholiad Allanol. Naill ai Haen Sylfaenol (graddau C – G) neu Haen Uwch (graddau A* - D)</p>
<p>2. <u>Arholiad Nofel – 25%</u> Haen Uwch - 'Yn y Gwaed' neu 'Y Stafell Ddirgel' neu 'O Ran' Pontio - 'I Ble'r Aeth Haul y Bore' neu 'Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr' neu 'Dim' Haen Sylfaenol - 'Bachgen yn y Môr' neu 'Llinyn Trôns' neu 'Diffodd y Sêr'</p>	<p>Arholiad Allanol. Naill ai Haen Sylfaenol (graddau C – G) neu Haen Uwch (graddau A* - D)</p>
<p>3. <u>Llafar – 25%</u> Gwaith Grŵp : Trafod 'Tylluan Wen' (Haen Uwch) 'Mynydd Grug' (Pontio) 'Dihirod Dyfed' (Haen Sylfaenol)</p>	<p>Arholiad Allanol, Ebrill Blwyddyn 11</p>
<p>4. <u>Tasgau Ysgrifenedig (dan reolaeth) - 25%</u> a) Tasg feirniadol wedi'i seilio ar straeon byrion. b) Tasg greadigol wedi'i seilio ar ddrama.</p>	<p>Asesiadau dan reolaeth yn ystod y cwrs.</p>

CYMRAEG LLWYBRAU MYNEDIAD

Mae'r cwrs Llwybrau Mynediad Cymraeg yn cwrdd ag anghenion disgyblion sydd yn ymddangos i fod o dan safon TGAU. Ar yr un pryd, mae'n darparu ar gyfer disgyblion sydd â'r potensial i gyrraedd TGAU Cymraeg.

Mae'r cwrs Llwybrau Mynediad yn datblygu sgiliau'r disgyblion i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ac i wrando gyda dealltwriaeth.

SAESNEG

Dysgir Saesneg i bob disgybl ym mlynnyddoedd 10 ac 11 a bydd bron pob disgybl yn dilyn cwrs TGAU Saesneg Iaith, gyda'r mwyafrif hefyd yn astudio tuag at gymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg.

SAESNEG TGAU : IAITH

<p>1. <u>Llafar - 20%</u> Asesiadau mewnol: dwy dasg: araith unigol a gwaith grŵp, tasgau i'w gosod gan CBAC, a'u recordio.</p>	Asesiad mewnol
<p>2. <u>Arholiadau Ysgrifenedig - 80%</u> Dau bapur arholiad, y ddau yn cynnwys o leiaf tri darn darllen-a-deall o wahanol fathau, gydag ystod o gwestiynau sy'n disgwyl atebion byrion a hirion, a'r ddau bapur yn cynnwys tasgau ysgrifenedig. Bydd papur un yn canolbwyntio ar waith disgrifiadol, creadigol a mynegiannol, a bydd papur dau yn sylwi ar adeiladu dadl, perswâd a chyfarwyddiadau. Bydd dwy dasg cywiro a gwirio ar bapur 1 sy'n cyfrannu 5% o'r holl farciau.</p>	Dau Arholiad Allanol, Haf Blwyddyn 11

Mae'r arholiadau llafar ac ysgrifenedig yn ddi-haen : A* - G

SAESNEG TGAU : LLENYDDIAETH

<p>1. <u>Asesiad mewnol - 25%</u> Bydd angen astudio un ddrama gan Shakespeare ac ystod o farddoniaeth wedi ei dewis gan CBAC o gyfrol 'Poetry 1900 - 2000: 100 poets from Wales'. Bydd dwy dasg: un yn trafod Shakespeare (2 awr), a'r llall yn cymharu o leiaf 2 o'r cerddi (2 awr).</p>	Asesiad dan reolaeth
<p>2. <u>Arholiadau Ysgrifenedig - 75%</u> Mae dau bapur o 2 awr yr un. Bydd papur 1 yn cynnwys astudiaeth o nofel gan awdur estron, 'Of Mice and Men' mae'n bur debyg, a chymhariaeth o ddau ddarn o farddoniaeth o'r newydd. Bydd yr ail bapur yn cynnwys astudiaeth o ddrama a nofel. Rhennir yr arholiad yn ddwy haen, ac ni fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â setio ar gyfer yr haenau cyn diwedd y tymor cyntaf o leiaf.</p>	Dau Arholiad Allanol, Naill ai Haen Sylfaenol (graddau C - G) neu Haen Uwch (graddau A* - D) Haf Blwyddyn 11

MATHEMATEG

Ym mlynnyddoedd 10 ac 11 bydd pob disgybl yn dilyn cwrs Mathemateg sy'n addas ar ei gyfer. Bydd pob cwrs yn cynnwys testunau rhifyddeg, algebra, geometreg, mesurau ac ystadegaeth.

Prif nod y cwrs yw i ddatblygu gwybodaeth a gallu Mathemategol y disgyblion i'w galluogi i gymhwyso mathemateg mewn sefyllfaoedd bob dydd a datblygu eu dealltwriaeth o'r rhan a chwaraeir gan fathemateg yn y byd o'u cwmpas.

Dylai'r cwrs hefyd eu galluogi i ddatrys problemau, i werthfawrogi patrymau a pherthnasoedd mathemategol, ac i hybu trafodaeth ac ymdeimlad o sgiliau mathemategol.

Bydd y disgyblion yn dilyn dau gwrs TGAU:

1. TGAU Mathemateg-Rhifedd, a
2. TGAU Mathemateg.

TGAU MATHEMATEG - RHIFEDD

Yn y TGAU Mathemateg-Rhifedd bydd y disgyblion yn cael y cyfle i adeiladu ar y lefelau rhifedd a gyflawnwyd yng nghyfnod allweddol 3 ac i symud ymlaen a gwella'u sgiliau. Bydd y disgyblion yn gweithio ar broblemau bywyd pob dydd, ym myd gwaith ac mewn meysydd eraill yn y cwricwlwm.

TGAU MATHEMATEG

Yn y TGAU Mathemateg, bydd y disgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau ym mhob agwedd o Fathemateg gan gynnwys yr agweddau hynny o Fathemateg sy'n angenrheidiol i symud ymlaen i astudiaeth wyddonol, dechnegol neu bellach mewn mathemateg.

Cynlluniau Asesu

Mae dau bapur ysgrifenedig ym mhob cymhwyster - 50% yr un.

Papur 1 (heb gyfrifiannell)

Papur 2 (gyda chyfrifiannell)

Mae tair haen ar gyfer pob cymhwyster: Haen Uwch (A*-C), Haen Ganolradd (B-E) a Haen Sylfaenol (D-G). Cynghorir y disgyblion yn ystod y cwrs ynglŷn â pha haen sy'n fwyaf addas ar eu cyfer.

Mathemateg Lefel Mynediad

Mae Lefel Mynediad Mathemateg yn gwrs sy'n cwrdd ag anghenion disgyblion sydd yn ymddangos i fod o dan safon TGAU ond ar yr un pryd mae'n darparu ar gyfer disgyblion sydd â'r potensial i symud i TGAU Mathemateg. Anogir y rhan fwyaf o'r disgyblion i sefyll y ddau arholiad, sef Lefel Mynediad Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd Haen Sylfaenol.

Mae'r cwrs Lefel Mynediad yn datblygu holl sgiliau Mathemategol y disgyblion ac yn datblygu eu dealltwriaeth o Fathemateg bob dydd a sut i'w gymhwyso.

GWYDDONIAETH

Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae Gwyddoniaeth yn orfodol i bob disgybl a chynigir amrywiaeth o wahanol gyrsiau a fydd yn cwrdd ag anghenion y dysgwyr. Bydd disgyblion y prif ffrwd yn dilyn cyrsiau TGAU:

- Bydd setiau uwch yn dilyn cwrs gwyddoniaeth triphlyg ac yn derbyn TGAU Bioleg, TGAU Cemeg a TGAU Ffiseg.
- Bydd gweddill y setiau yn dilyn cwrs gwyddoniaeth dwyradd ('gwyddoniaeth dwbl') sydd yn rhoi dau TGAU gyda phâr o raddau o A* hyd G.
- Ble mae'n addas, caiff cwrs llwybrau mynediad ei gynnig i nifer fach iawn o ddisgyblion y flwyddyn.

Mae astudio TGAU Gwyddoniaeth yn gweithredu fel sail ar gyfer deall y byd materol. Mae dealltwriaeth wyddonol yn newid ein bywydau ac mae'n hanfodol i ffyniant y byd yn y dyfodol. Byddwn yn addysgu pob dysgwr felly yn yr agweddau hanfodol ar y wybodaeth, dulliau, prosesau a defnyddiau o wyddoniaeth. Byddwn yn helpu'r dysgwyr i werthfawrogi sut y gellir disgrifio ffenomenau cymhleth ac amrywiol y byd naturiol yn nhermau nifer bach o syniadau allweddol yn ymwneud â'r gwyddorau sy'n rhyng-gysylltiol ac i'w cymhwysu'n gyffredinol. Ymhlith y syniadau allweddol hyn mae:

- defnyddio modelau a damcaniaethau cysyniadol i wneud synnwyr o'r amrywiaeth ffenomenau naturiol dan sylw
- y rhagdybiaeth bod mwy nag un achos i bob effaith
- bod gwahaniaethau rhwng gwrthrychau a systemau gwahanol yn gyrru newid wrth ryngweithio
- bod llawer o ryngweithiadau o'r fath yn digwydd dros bellter heb gyswllt uniongyrchol
- bod gwyddoniaeth yn symud drwy gylch o ragdybiaeth, arbrofi ymarferol, arsylwi, datblygu damcaniaethau ac adolygu
- bod dadansoddi meintiol yn elfen ganolog mewn llawer o ddamcaniaethau ac mewn dulliau ymholi gwyddonol.

Mae'r syniadau allweddol hyn yn berthnasol mewn ffyrdd gwahanol ac mae pwyslais gwahanol arnynt yn y tri phwnc fel rhan o Gwyddoniaeth.

TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd

Cynllun Asesu

Uned		
Bioleg 1	Arholiad 1¼ awr (15%)	Haf blwyddyn 10
Cemeg 1	Arholiad 1¼ awr (15%)	Haf blwyddyn 10
Ffiseg 1	Arholiad 1¼ awr (15%)	Haf blwyddyn 10
Bioleg 2	Arholiad 1¼ awr (15%)	Haf blwyddyn 11
Cemeg 2	Arholiad 1¼ awr (15%)	Haf blwyddyn 11
Ffiseg 2	Arholiad 1¼ awr (15%)	Haf blwyddyn 11
Asesiad Ymarferol	Asesiad ymarferol sy'n cael ei gynnal yn y canolfannau, ond yn cael ei farcio'n allanol gan CBAC. Asesiad di-haen.	Ionawr/Chwefror blwyddyn 11 (10%)

TGAU Bioleg, Cemeg a Ffiseg - "Gwyddoniaeth Driphlyg".*Cynllun Asesu ar gyfer pob un o'r cyrsiau TGAU hyn*

Uned 1	Arholiad 1¾ awr (45%)	Haf blwyddyn 10
Uned 2	Arholiad 1¾ awr (45%)	Haf blwyddyn 11
Asesiad Ymarferol	Asesiad ymarferol sy'n cael ei gynnal yn y canolfannau, ond yn cael ei farcio'n allanol gan CBAC. Asesiad di-haen.	Ionawr/Chwefror blwyddyn 11 (10%)

Llwybrau Mynediad

Rydym yn cynnig y cwrs hwn i nifer fach o ddisgyblion sy'n profi anawsterau sylweddol wrth ymdopi â chwrs TGAU fel eu bod yn cael y cyfle i ennill cymhwyster gwyddonol.

Bydd mwy o wybodaeth i chi fel rhieni am drefniadaeth y cwricwlwm Gwyddoniaeth ar ddechrau mis Medi.

DAEARYDDIAETH

Mae Daeryddiaeth yn bwnc cyffrous, cyfoes sydd yn galluogi disgyblion i edrych ar y byd o'u cwrmpas ac i ddeall y materion sydd yn dylanwadu ar eu dyfodol. Bydd pob disgybl yn astudio agweddau craidd, gydag un opsiwn ychwanegol ym mhob uned.

11

Uned 1: Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol

Themâu craidd	Opsiynau
<ul style="list-style-type: none">Tirweddau a phrosesau ffisegolCysylltiadau gwledig-trefol	UN allan o: <ul style="list-style-type: none">Tirweddau a Pheryglon TectonigPeryglon Arfordirol a'u Rheolaeth
Aseiad: Arholiad Ysgrifenedig 1½ awr ar ddiwedd blwyddyn 11; 40% o'r cwrs.	

Uned 2: Materion Amgylcheddol a Datblygu

Themâu craidd	Opsiynau
<ul style="list-style-type: none">Y Tywydd, yr hinsawdd ac EcosystemauMaterion Datblygu ac Adnoddau	UN allan o: <ul style="list-style-type: none">Materion Datblygu CymdeithasolSialensiau Amgylcheddol
Aseiad: Arholiad Ysgrifenedig 1½ awr ar ddiwedd blwyddyn 11; 40% o'r cwrs.	

Uned 3: Ymholiadau Gwaith maes

Gwaith Maes Craidd
Caiff dysgwyr ddatblygu eu sgiliau ymholi daeryddol drwy waith maes. Byddant yn ymgymryd â dau ymholiad gwaith maes, gyda'r ddau mewn amgylchedd cyferbyniol.
<ul style="list-style-type: none">Mewn un amgylchedd, bydd y gwaith maes yn canolbwyntio ar fethodoleg.Byddwn yn cynnal yr ail brofiad gwaith maes mewn amgylchedd cyferbyniol. Bydd hwn yn canolbwyntio ar fframweithiau cysyniadol daeryddiaeth.
Aseiad: Aseiad o dan reolaeth; 20% o'r cwrs.

HANES

Mae'r cwrs Hanes TGAU yn gyfrwng i baratoi ymgeiswyr i wynebu gofynion newidiol y byd modern. Anogir ymgeiswyr i fabwysiadu agwedd ymholgar i astudio hanes. Mae'r maes llafur yn rhoi cyfle i ymgeiswyr astudio hanes tu allan i Brydain yn ogystal â hanes Cymru a Phrydain.

Mae'r cwrs Hanes yn cyfrannu i gwricwlwm ysgol gyfan ac yn cyflwyno nifer o themâu trawsgwricwlaidd gan gynnwys ymwybyddiaeth economaidd a diwydiannol a sgiliau trawsgwricwlaidd megis cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r Adran yn trefnu ymweliadau addas i'r cyrsiau a astudir .

Cynllun Asesu

<p>1. <u>Papur 1; Arholiad 1 awr - 25%</u> Astudiaeth Fanwl 1: Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad 1930 - 51 e.e. Sefyllfa Prydain ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, achosion yr Ail Ryfel Byd, bywyd yn ystod y Blitz, Prydain wedi'r Rhyfel. Bydd y papur yn arholi gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu'r ymgeisydd i ddehongli ffynonellau.</p>	<p>Arholiad Allanol Diwedd Blwyddyn 11</p>
<p>2. <u>Papur 2; Arholiad 1 awr - 25%</u> Astudiaeth Fanwl 2: UDA - Gwlad y Gwahaniaethu 1910-29 e.e. Mudo, adloniant, ffyniant y 1920au Bydd y papur yn arholi gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu'r ymgeisydd i werthuso ffynonellau.</p>	<p>Arholiad Allanol Diwedd Blwyddyn 10 (Cyfle i ail-sefyll)</p>
<p>3. <u>Papur 3; Arholiad 1 awr 15 mun -30%</u> Astudiaeth Thematig : Trosedd a Chosb ers 1530 e.e. achosion troseddu, atal troseddu a chosbi</p>	<p>Arholiad Allanol, Haf Blwyddyn 11</p>
<p>4. <u>Aseiad Rheoledig</u> (20% o'r marciau terfynol) Rhaid cyflwyno dau ddarn ar thema o ddewis y bwrdd arholi sydd yn newid yn flynyddol. Bydd un darn yn astudiaeth hanesyddol a'r llall yn astudiaeth o ddehongliad hanesyddol.</p>	<p>Aseidiadau dan reolaeth yn ystod y cwrs.</p>

ASTUDIAETHAU BUSNES

Dyma gwrs sy'n dyfnhau dealltwriaeth ymgeiswyr o'r ffordd y mae busnesau'n gweithredu mewn amgylchedd dynamig, cyfnewidiol a chystadleuol. Mae'r ddealltwriaeth hon wedi'i gwreiddio mewn theori ac arfer busnes cyfredol ac mae'n adlewyrchu natur integredig cyfundrefnau a'u prosesau penderfynu.

Mae'r cwrs wedi'i rannu i Bapur Ysgrifenedig 75% (2 awr) 100 o farciau. Un papur a gaiff ei dargedu at yr amrediad llawn o raddau TGAU [A* - G]. Cwestiynau ateb byr gorfodol yw rhai a chwestiynau gorfodol sy'n seiliedig ar ddeunydd ysgogi yw'r gweddill. Bydd rhai o'r cwestiynau yn gofyn am ysgrifennu estynedig.

Asesiad dan Reolaeth 25% - 60 marc. CBAC sy'n gosod y dasg, lle bydd 6 wythnos i gasglu ymchwil ac yna 3 awr i ysgrifennu'r dasg o dan amodau arholiad. Bydd angen dadansoddi a gwerthuso a chreu cywaith hyd at 2000 o eiriau.

13

<p>Uned 1 – Fframwaith Busnes Bydd angen deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pam a sut mae busnesau'n cychwyn cyfundrefnau busnes • Nodau ac amcanion busnes 	<p>Uned 2 – Busnesau a'u cwsmeriaid Bydd angen deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwysigrwydd ymchwil marchnata (desg a maes) • Deall segmentau'r farchnad • Cylchred Bywyd Cynnyrch • Cymysgedd Marchnata • Cyrff rheoleiddio a charfannau pwyso
<p>Uned 3 – Cynhyrchu Nwyddau a Gwasanaethau Bydd angen deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y gwahaniaeth rhwng nwydd a gwasanaeth • Y dulliau cynhyrchu • Rheoli stoc ac ansawdd • Adennill costau • Twf mewnol/allanol • Ffactorau sy'n effeithio ar leoliad • Masnach ryngwladol – y manteision a'r anfanteision • Aelodaeth o'r Uned Ewropeaidd 	<p>Uned 4 – Adnoddau Dynol Bydd angen deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y prosesau o recritwio staff • Hyfforddiant ac ailhyfforddiant • Cyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr • Unedau llafur • Siartiau trefniadaeth • Cyfathrebu • Cymell gweithwyr • Cyflog crynswth a net
<p>Uned 5 – Yr Amgylchedd Allanol Bydd angen deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithgareddau cystadleuwyr • Newidiadau yn y defnydd a wneir o TGCh • Cynaliadwyedd, diwylliant, moeseg • Deddfwriaeth y llywodraeth • Yr amgylchedd macro-economaidd • Digwyddiadau annisgwyl 	<p>Uned 6 – Cyllid Busnes Bydd angen deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyllid mewnol ac allanol • Pwysigrwydd y cynllun busnes • Sut i ddehongli rhagolygon llif arian • Cyfrifon elw a cholled a mantolenni

ALMAENEG a FFRANGEG

Mae'r gallu i gyfathrebu mewn iaith dramor yn dod yn fwyfwy pwysig ar draws Ewrop a'r byd, ac fe fydd cymhwyster ieithyddol yn ddefnyddiol iawn wrth gychwyn gyrfa mewn sawl proffesiwn yn ogystal ag yn gymdeithasol mewn nifer fawr o sefyllfaoedd.

Mae cyfle i ddisgyblion ddilyn cwrs fydd yn arwain at gymhwyster TGAU mewn Ffrangeg ac/neu Almaeneg. Bydd y cwrs yn sialens yn ogystal ag yn bleser i ymgeiswyr o raddfa eang o allu.

Bwriad y Cwrs

- Datblygu dealltwriaeth o Ffrangeg/ Almaeneg llafar ac ysgrifenedig mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Datblygu'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Ffrangeg/ Almaeneg ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Datblygu gwybodaeth am Ffrainc/ Yr Almaen a gwledydd lle siaredir Ffrangeg/ Almaeneg.
- Meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu iaith dramor.
- Paratoi disgyblion at astudiaeth ieithyddol bellach a defnydd ymarferol o'r iaith mewn gwlad dramor.

Cynnwys y Cwrs

Bydd yn seiliedig ar y meysydd canlynol: Bywyd personol a chymdeithasol; Y gymuned leol; Byd gwaith; Materion byd eang

Cynllun Asesu

Asesir sgiliau Gwrando, Darllen, Siarad ac Ysgrifennu gyda phob un yn cyfrannu 25% o'r marciau terfynol. Mae haen uwch (A*-D) a haen sylfaenol (C-G) i bob asesiad.

Uned 1: Llafar	Arholiad llafar (Haen Uwch: 10-12 munud; Haen Sylfaenol: 7-9 munud)
Uned 2: Gwrando	Arholiad ysgrifenedig (Haen Uwch: 45 munud; Haen Sylfaenol: 35 munud)
Uned 3: Darllen	Arholiad ysgrifenedig (Haen Uwch: 1¼ awr; Haen Sylfaenol: 1 awr)
Uned 4: Ysgrifennu	Arholiad ysgrifenedig (Haen Uwch: 1½ awr; Haen Sylfaenol: 1¼ awr)

Cyfathrebu Busnes Byd-eang

Yn ogystal â chyrsgiau TGAU mae'r adrannau yn darparu'r cymhwyster hwn. Cymhwyster ITM galwedigaethol Lefel 1/2 yw'r dyfarniad galwedigaethol newydd Cyfathrebu Busnes Byd-eang a fydd yn datblygu gallu'r dysgwr i weithio'n fwy effeithiol yn yr economi byd-eang.

Teithiau/Cyfnewid

Mae gan yr adrannau Ffrangeg ac Almaeneg bartneriaethau hir-dymor gyda Lycée St Sébastien, Landerneau, Llydaw a Wüllenweberschule, Bergneustadt yn yr Almaen.

Assistant

Rydym yn hynod o ffodus fel adrannau i gael assistant Almaeneg a Ffrangeg yn cyd-weithio gyda ni yn flynyddol.

TECHNOLEG GWYBODAETH

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu TGAU CBAC

Mae cwrs mewn TGCh yn cynnig i ddisgyblion adnabod a datrys problemau real trwy ddylunio systemau gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau'n ymwneud â'u diddordebau personol. Mae'n datblygu sgiliau rhyngddisgyblaethol disgyblion a'u gallu o ran meddwl llawn dychymyg, arloesol, creadigrwydd ac annibyniaeth.

Mae'r fanyleb yn annog ymchwilio ac astudio TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau, sy'n rhoi cyfle iddynt feithrin cymhwyster, gallu a sgiliau beirniadol trwy greu, gweithredu, defnyddio a gwerthuso amrywiaeth o systemau gwybodaeth a chyfathrebu.

Asesu

Uned 1: Deall TGCh 20% Asesiad Allanol: 1½ awr

Yn asesu gofynion y Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 TGCh ac elfennau gweithredol TGCh yng nghyd-destun y cartref a'r ysgol.

Uned 2: Datrys problemau gyda TGCh Gradd Unigol 30% Asesiad dan reolaeth: 22½ awr

Portffolio o waith sy'n dangos cyrhaeddiad ymgeiswyr wrth gaffael a dehongli gwahanol fathau o wybodaeth; defnyddio, datblygu a chyfathrebu gwybodaeth i fodloni pwrpas eu hastudiaethau a chyflwyno canlyniadau eu gwaith. Bydd yr aseiniad hwn yn asesu agweddau ymarferol elfennau gweithredol TGCh.

Uned 3: TGCh mewn Sefydliadau Gradd Unigol 20% Asesiad Allanol: 1½ awr

Arholiad yn asesu cynnwys 'cymhwysiad' TGCh mewn cyd-destun busnes a diwydiant.

Uned 4: Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng Gradd Unigol 30% Asesiad dan reolaeth: 22½ awr

Datblygu darn o waith gan ddefnyddio meddalwedd amlgyfrwng gan ddilyn briff tasg unigol y bydd CBAC yn ei gyhoeddi.

Cynnwys

1. Data ac Ansawdd data	14. Meddalwedd Gwe a Chyflwyno
2. Adloniant cartref	15. Amlgyfrwng
3. Systemau cyfathrebu'r cartref a rhai personol	16. Delweddu digidol
4. Busnes cartref	17. Animeiddio
5. Sefydliadau: Ysgol, y cartref, yr amgylchedd	18. Sain a cherddoriaeth
6. Technolegau newydd	19. Rhwydweithiau
7. TGCh a dysgu	20. Rhyngwynebau Cyfrifiadur-Dyn (HCIs)
8. Meddalwedd rhaglenni	21. Sefydliadau
9. Meddalwedd trin gwybodaeth	22. Effaith gymdeithasol ac amgylcheddol
10. E-bost	23. Materion cyfreithiol a moesegol
11. Meddalwedd taenlenni	24. Aros yn Ddiogel Ar-lein
12. Logio data a Rheoli	25. Materion gwarchod data
13. Meddalwedd CBG (DTP)	26. Materion iechyd
	27. Technolegau newydd

CYFRIFIADUREG

Mae'r fanyleb hon yn galluogi myfyrwyr i feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyfrifiaduron yn gweithio, a chreu ac adolygu rhaglenni cyfrifiadurol at ddibenion bywyd go iawn yn seiliedig ar eu diddordebau eu hunain. Mae'n eu hannog i greu eu gemau a'u rhaglenni eu hunain, a systemau, eraill, yn hytrach na defnyddio'r rhai a ddyluniwyd gan eraill yn unig.

Mae'r cwrs hwn yn ysgogi myfyrwyr drwy astudiaeth o gyfrifiadureg ysgogol a chymelliadol sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain.

Nodwedd arall am y fanyleb yw'r cyfle sydd i fyfyrwyr arddangos eu sgiliau rhaglennu a datrys problemau, sgiliau a asesir yn Uned 2 ac yn Uned 3.

Gan fod y cwrs yn cynnwys ymdriniaeth ddofn o'r maes, mae'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer astudio'r Safon Uwch Cyfrifiadura neu i fynd i weithio.

Asesu

Uned 1 - Deall Cyfrifiadureg (50%) - arholiad ysgrifenedig **1 awr 45 munud** o hyd.

Uned 2 - Meddwl Cyfrifiadurol a Rhaglennu (30%) - asesiad allanol **2 awr** o hyd i asesu cymhwys gwybodaeth a dealltwriaeth mewn ffordd ymarferol drwy gyfres o dasgau ar-sgrin. Bydd disgwyl iddynt ddefnyddio iaith Greenfoot (seiliedig ar java).

Uned 3 - Datblygu Meddalwedd (20%) - asesiad dan reolaeth wedi'i hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol dros **20 awr** i ddatblygu darn o waith yn defnyddio meddalwedd rhaglennu gan ddilyn briff y dasg y bydd CBAC yn ei gyhoeddi.

Cynnwys Uned 1

1. Caledwedd
2. Gweithrediadau rhesymegol
3. Cyfathrebu
4. Trefn a strwythur data
5. Meddalwedd system
6. Egwyddorion rhaglennu
7. Peirianeg meddalwedd
8. Llunio rhaglenni
9. Diogelwch a seibrfwlio
10. Effeithiau moesegol, cyfreithiol, ac amgylchedd technoleg ddigidol ar y gymdeithas ehangach

Cynnwys Uned 2

1. Datrys problemau
2. Algorithmau a lluniadau rhaglennu
3. Ieithoedd rhaglennu
4. Strwythurau data a mathau data
5. Diogelwch a dilysu

Cynnwys Uned 3

1. Datblygu Meddalwedd

ELECTRONEG TGAU

Pwnc ymarferol yw Electroneg lle mae'r sgiliau ymarferol yn cael eu meithrin ochr yn ochr â theori i gryfhau dealltwriaeth yr ymgeiswyr. Mae'r cwrs wedi cael ei strwythuro i'w gwneud hi'n bosibl i roi lle amlwg i agweddau technolegol ar astudio electroneg. Astudir cymwysiadau electroneg yn y byd go iawn i ddechrau ac yna symud tuag at yr egwyddorion sy'n angenrheidiol i ddeall y cymwysiadau hyn, ac nid y ffordd arall. Y bwriad yw meithrin gallu'r ymgeiswyr trwy ddull hyblyg ac eang ei gwmpas.

17

Mabwysiedir dull systemau at ddatrys problemau cymhleth. Mae'r athroniaeth hon wedi'i seilio ar dorri tasg i lawr yn flociau hydrin, y mae pob un ohonynt yn cyflawni ei swyddogaeth unigryw ei hun.

Cynllun Asesu

Uned 1: Darganfod Electroneg (40%) Mae'r uned yn cynnwys: Systemau Electronig, Cydrannau mewn cylchedau, Cylchedau Allbynnu, Switso a Synhwyro, Systemau Rhesymeg Gyfuniadol.	Papur Ysgrifenedig: 1½ awr
Uned 2: Cymwysiadau Electroneg (40%) Mae'r uned yn cynnwys: Cylchedau amseru, Systemau dilyniannol, Cylchedau rhyngwyneb, Cyfathrebiadau analog, Systemau rheoli rhaglenadwy.	Papur Ysgrifenedig: 1½ awr
Uned 3: Dylunio a Gwireddu System Estynedig (20%) Mae'r ymgeiswyr/athrawon yn dyfeisio tasg ddyfunio. Maent hwy'n gwireddu'r dasg ac yn ysgrifennu adroddiad ar ei datblygiad. Ymgymerir â'r asesiad yn gyfan gwbl o dan oruchwyliaeth yr athro/athrawes.	Asesiad dan Reolaeth

DRAMA

Cynnwys

Mae'r Maes Llafur Drama yn cynnwys amrywiaeth o waith ymarferol, ac astudiaeth o destun drama. Mae angen ymweliadau â'r theatr a gweld dramau addas ar ffilm a theledu, er mwyn deall a gwerthfawrogi perfformiad. Astudir arddulliau nifer o arloeswyr y byd theatr a disgwylir i'r ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth yn eu gwaith.

Astudir un ddrama yn fanwl ac felly ceir y cyfle i ystyried arddulliau ysgrifennu gwahanol ddramodwyr a thrafodir strwythur y ddrama. Mae asesiad rheoledig, gwerthuso perfformiad yn digwydd ar ôl yr arholiad ymarferol cyntaf. Bydd ochr ymarferol y cwrs hefyd yn cynnwys dau arholiad ymarferol, lle disgwylir i'r unigolyn berfformio fel aelod o grŵp.

Amcanion

Dylai'r cwrs feithrin mewn ymgeiswyr:-

- (i) Y gallu i ddeall, drwy waith grŵp, y profiadau dynol sylfaenol o gymeriadu a chreu cymeriad.
- (ii) Ymwybyddiaeth o'r elfennau sy'n cyfrannu at effaith gyflawn cyflwyniad dramatig, a'r gallu i ddefnyddio rhai o'r sgiliau a geir yno.
- (iii) Gwerthfawrogiad o lenyddiaeth ddramatig fel y defnydd crai y llunir perfformiad ohono.
- (iv) Mwynhad a gwerthfawrogiad gwybodus o gyflwyniadau dramatig yn y theatr a chyfryngau eraill.

CYNLLUN ASESU

Uned 1	Asesiad Mewnol di-arholiad Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar naill ai actio neu ar ddylunio. Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn y broses o greu, datblygu a pherfformio darn o theatr dyfeisiedig gan ddefnyddio naill ai technegau ymarferwr theatr dylanwadol neu genre, mewn ymateb i symbyliad y bydd CBAC yn ei osod.	40%
Uned 2	Asesiad Allanol o Berfformiad Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu naill ai ar actio neu ar ddylunio. Bydd dysgwyr yn astudio dau ddetholiad o'r un testun perfformiad o ddewis y ganolfan. Bydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn un perfformiad gan ddefnyddio rhannau o'r testun o'r ddau ddetholiad.	20%
Uned 3	Arholiad Ysgrifenedig (1½ awr) Cyfres o gwestiynau ar un testun gosod o ddewis o bump: 1. Romeo and Juliet William Shakespeare 2. 1984 George Orwell, addasiad gan Robert Icke & Duncan Macmillan 3. Cysgod Y Cryman Islwyn Ffowc Ellis, addasiad gan Sion Eirian 4. Dau Wyneb Manon Steffan Ross 5. 100 Imaginary Body (Nick Hern Books). Adran B: Adolygiad theatr fyw Un cwestiwn o dewis o ddau lle mae gofyn dadansoddi a gwerthuso agwedd a roddir o gynhyrchiad theatr byw a welwyd yn ystod y cwrs.	40%

ASTUDIAETHAU CYFRYNGAU

Bwriad y cwrs yw datblygu sgiliau ymchwilio, meddwl beirniadol a gwneud penderfyniadau drwy ystyried materion sy'n bwysig, yn real ac yn berthnasol i'r dysgwyr ac i'r byd y maent yn byw ynddo

- datblygu eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau a'u rôl yn eu bywydau bob dydd
- datblygu eu sgiliau ymarferol a chreadigol drwy gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu personol a chreadigrwydd
- deall sut i ddefnyddio cysyniadau a syniadau'r cyfryngau i ddadansoddi cynrychiadau'r cyfryngau yn eu cyd-destunau amrywiol.

19

CYNLLUN ASESU

<p>Uned 1</p>	<p>Ymchwilio i'r Cyfryngau</p> <p>Asesiad Allanol: Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun</p> <p>Adran A: Cerddoriaeth Bydd yr uned hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am iaith y cyfryngau, cynrychioliad, diwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd. Un cwestiwn mewn camau ac un cwestiwn dwy ran.</p> <p>Adran B: Cynrychioliadau - hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd Un cwestiwn o ddewis o ddau. Bydd pob cwestiwn wedi'i osod ar ffurf cyfryngau gwahanol (hysbysebu, gemau fideo neu bapurau newydd) Un cwestiwn mewn camau yn seiliedig ar ddeunydd adnoddau argraffedig nad ydynt wedi'i weld o'r blaen sy'n ymwneud â hysbysebu, gemau fideo neu bapurau newydd.</p>	<p>30%</p>
<p>Uned 2</p>	<p>Deall Teledu a Ffilm</p> <p>Asesiad Allanol: Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 30 mun</p> <p>Adran A: Cymru ar y Teledu Un cwestiwn mewn camau ar ddiwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd. Un cwestiwn mewn camau ar iaith y cyfryngau a chynrychioliad.</p> <p>Adran B: Ffilm Hollywood Gyfoes Un cwestiwn mewn camau ar ddiwydiannau'r cyfryngau a chynulleidfaoedd. Un cwestiwn ymateb estynedig ar iaith y cyfryngau.</p>	<p>30%</p>
<p>Uned 3</p>	<p>Creu Cyfryngau</p> <p>Asesiad di-arholiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchiad y cyfryngau, gan gynnwys ymchwil a chynllunio unigol, a grëwyd mewn ymateb i ddewis o friffiau a osodir gan CBAC, a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol. • Dadansoddiad myfyrgar unigol o gynhyrchiad. 	<p>40%</p>

CELF A DYLUNIO

Mae'r term 'Celf a Dylunio' yn cwmpasu ystod eang o elfennau celf, crefft a dylunio, sef celfyddyd gain, dylunio graffigol, tecstilau, astudiaethau tri dimensiwn, ffotograffiaeth ac astudiaethau beirniadol a hanesyddol. Mae'r opsiynau o fewn y cwrs yn cynnwys modelu, cerameg a cherflunio, gosodiadau, graffeg a dylunio masnachol, ffasiwn a dylunio tecstilau, gemwaith, ffilm a fideo, dylunio theatr, animeiddio, dylunio amgylchedd a phensaerniaeth, yn ogystal ag edrych ar waith artistiaid a dylunwyr.

Mae'r cwrs yma'n rhoi dewis eang i'r disgyblion felly, gyda'r cyfle i bob un arwain ei drywydd ei hun gyda chymorth athro. Fe all y disgyblion ddewis dilyn cwrs Celf a Dylunio a chanolbwyntio ar weithio mewn un ddisgyblaeth ond rydyn ni'n annog i bawb roi cynnig ar nifer o ddisgyblaethau yn ystod y ddwy flynedd er mwyn darganfod cryfderau newydd.

- Celfyddyd Gain: Darlunio a pheintio (olew / pastel / acrylig / a llwyth o bosibiliadau eraill), Gwaith cyfrwng cymysg, Argraffu mono / leino / sgrin sidan, Gosodiadau
- Graffeg: Dylunio masnachol, Graffeg cyfrifiadurol, Darlunio (illustration), Llythrennu
- Astudiaethau Tri Dimensiwn: Cerameg, Gemwaith, Dylunio cynnyrch, Crefftau 3D, Dylunio ar gyfer y theatr
- Tecstilau: Gwehyddu/brodio/ac ati, Argraffu, Ffasiwn creadigol, Batic
- Ffotograffiaeth: Ffotograffiaeth 'draddodiadol', Sgiliau digidol, Ffilm a Fideo
- Astudiaeth Feirniadol: Ymchwilio i waith mudiad / traddodiad rhanbarth / artist / ac ati

Bydd elfen o waith beirniadol a hanesyddol yn yr uchod i gyd ond mae'r adran Astudiaeth Feirniadol a Hanesyddol yn rhoi cyfle i rai disgyblion ymchwilio yn ddyfnach i waith artistiaid a dylunwyr yn ysgrifenedig yn hytrach na chyflawni gwaith ymarferol.

Cynllun Asesu

<p>Uned 1: Portffolio</p> <p>Mae'r uned hon yn cynnwys prif bortffolio ymarferol a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu sy'n cael eu gosod yn fewnol a deunydd pwnc a ddatblygir o fannau cychwyn personol a/neu a roddir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y gwaith a gyflawnir yn rhan o'r uned hon yn cael ei osod a'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. • Y myfyriwr fydd yn dewis, yn gwerthuso ac yn cyflwyno'r gwaith i'w asesu. 	60%
<p>Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol</p> <p>Mae'r Aseiniad wedi'i osod yn Allanol ac yn cynnwys dwyr ran:</p> <p>Rhan 1: Cyfnod astudiaeth baratoadol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd CBAC yn rhyddhau deunyddiau'r Aseiniad sydd wedi'i osod yn Allanol i'r myfyriwr ddim cynharach na 2 Ionawr (ym mlwyddyn 11). Bydd y deunyddiau hyn yn cynnwys aseiniadau wedi'u seilio ar themâu, ysgogiadau gweledol a briffiau ysgrifenedig, sydd i'w cyflwyno i'r myfyriwr ar ddechrau'r cyfnod astudiaeth baratoadol. • Bydd un o'r aseiniadau yn cael ei ddewis gan y myfyriwr i'w ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer ymateb personol a chreadigol. <p>Rhan 2: Cyfnod o 10 awr o waith dwys a manwl</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid cwblhau'r broses o wireddu syniadau'r myfyriwr o'r gwaith paratoi yn ystod y 10 awr hyn o waith dwys a manwl. • Rhaid cwblhau'r cyfnod o waith dwys a manwl dan amodau dan oruchwyliaeth. 	40%

ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

Yn ôl deddf Addysg 1988, mae Addysg Grefyddol yn bwnc statudol i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Bydd y disgyblion yn dilyn un o ddau gwrs TGAU ym mlwyddyn 10 ac 11. Bydd yr adran yn penderfynu pa gwrs fyddai'n addas ar gyfer pob disgybl yn ôl eu cyflawniad yn y pwnc. Mae'r ddau gwrs yn golygu bydd gan ddisgyblion Glantaf dystysgrif TGAU yn y pwnc ar ddiwedd eu hymdrechion ym mlwyddyn 11.

21

TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (Cwrs Llawn)

Yn y cwrs hwn bydd y disgyblion yn astudio **dwu uned** dros y ddwy flynedd. Mae'r adran yn dewis astudio Cristnogaeth ac Islam yn bennaf. Mae dau bapur arholiad terfynol, un ar ddiwedd blwyddyn 10 a'r llall ar ddiwedd blwyddyn 11. Bydd y cwrs yn cael ei addysgu fel cwrs carlam.

Y themâu a astudir yw:

Uned 1- Themâu Athronyddol – y syniad o Dduw ac addoli, y byd a materion bywyd a marwolaeth, Materion daioni a drygioni.

Uned 2 - Themâu Moesegol – awdurdod crefydd, taith bywyd, manau arbennig, perthynas a hawliau dynol.

TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (Cwrs Byr)

Yn y cwrs hwn bydd disgyblion yn astudio **un uned** dros y ddwy flynedd. Mae'r adran yn dewis astudio Cristnogaeth ac Islam yn bennaf. Bydd un arholiad terfynol ar ddiwedd blwyddyn 11.

Y themâu a astudir yw:

Uned 1- Themâu Athronyddol – y syniad o Dduw ac addoli, y byd a materion bywyd a marwolaeth, Materion daioni a drygioni.

LLWYBRAU MYNEDIAD ADDYSG GREFYDDOL

Mae'r cwrs yma wedi'i gynllunio i gyd fynd â gofynion statudol dysgu Addysg Grefyddol.

Yn ystod y cwrs hwn bydd y disgyblion yn astudio pump agwedd o grefydd. Bydd asesiadau parhaol drwy gydol y ddwy flynedd, ac nid oes arholiad terfynol.

Y themâu a astudir yw:-

Perthynas, Ein Byd, Hawliau, Chwilio am Ystyr, a Hunaniaeth a Pherthyn.

Bydd y disgyblion yn canolbwyntio'n bennaf ar Gristnogaeth ac Islam.

CERDDORIAETH

Mae'r cwrs dwy flynedd yn seiliedig ar y sgiliau a nodwyd gan y Bwrdd Arholi, Cyd Bwyllgor Addysg Cymru, ac yn gam naturiol o astudiaethau CA3. Mae cyfle i feithrin a datblygu sgiliau allweddol hanfodol.

Cynllun Asesu

MUS 1: PERFFORMIO 35% [Perfformiad o hyd at 10 munud o hyd]

Disgwylir i bob disgybl gynnig perfformiad o ddau ddarn gydag o leiaf un yn chwarae/ganu mewn ensemble [3 aelod neu fwy, er bod deuaud bona fide yn dderbyniol, e.e. deuaud telyn, piano] gydag arholwr allanol yn cymedroli a gwrando ar sampl sydd wedi eu recordio. Mae safon Gradd 3 yn dderbyniol iawn. Rhaid darparu nodiadau rhaglen ar gyfer un darn a ddewiswyd.

Gwaith allanol – Côr, Ensemblau Offerynnol, Bandiau Pres, Bandiau Jazz, Sioeau Cerdd. Mae'r adran yn annog ac yn gofyn i bob plentyn fynychu un neu fwy o'r gweithgareddau hyn er mwyn datblygu sgiliau cerddorol amrywiol ac ehangach.

Fe gynigir gwersi offerynnol / llais gan dîm profiadol o athrawon teithiol e.e. sacsoffon, telyn, llais, clarinet, pres a.y.y.b. Mwy o wybodaeth am hyn ar gael oddi wrth yr Adran.

MUS 2: CYFANSODDI 35% [Ffolio cyfansoddi o 3-6 munud o hyd]

Disgwylir i bob disgybl baratoi ffolio sydd yn cynnwys 2 gyfansoddiad gwreiddiol, gwrthgyferbyniol. Bydd un o'r rhain yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Rhaid cwblhau log cyson, llawn ar y datblygiadau a'u gwerthuso. Bydd yr asesu yn barhaol o dan arolygaeth yr athro. Fe anfonir sampl o'r ffolios at arholwr allanol i'w cymedroli [mis Ebrill / Mai blwyddyn 11]. Mae'r adran yn defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol fel adnodd defnyddiol ar gyfer cyfansoddi annibynnol e.e. Sibelius, Cubase

MUS 3: GWERTHUSO 30% Papur arholiad – gwrando a gwerthuso

Byddwch yn astudio Pedwar Maes Astudiaeth

- Maes astudiaeth 1: Ffuriau a Dyfeisiau Cerddorol**
- Maes astudiaeth 2: Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble**
- Maes astudiaeth 3: Cerddoriaeth Ffilm**
- Maes astudiaeth 4: Cerddoriaeth Boblogaidd**

Mae rhai o'r cwestiynau ar y papur yn seiliedig ar gerddoriaeth sydd yn gysylltiedig â'r 4 Maes Astudiaeth uchod, a gwerthusiad o gyfansoddiad / perfformiad gan yr unigolyn. Mae'r disgyblion yn astudio nifer o ddarnau sydd yn gysylltiedig â'r meysydd uchod, ac yn ateb cwestiynau wrth i gryo ddisg chwarae am y cynhwysion cerddorol sydd i'r darnau a glywir, yr offeryniaeth, dyfeisiadau cerddorol, arddull a chyfnod ag ati.

Astudiaeth o ddau waith gosod – 'Handbags and Gladrag's' gan y Sterophonics a 'Rondeau' gan Purcell. Fe fydd cwestiynau penodol ar y ddau waith hwn ar y papur gwerthuso.

Fe fydd y papur hwn yn cael ei farcio yn allanol Mai/ Mehefin.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Mae'r Gyfadran Dechnoleg yn cynnig y pynciau canlynol:

1. DYLUNIO A THECHNOLEG – TGAU Dylunio Cynnyrch
2. DYLUNIO A THECHNOLEG - TGAU Fasiwn a Thecstiliau

Datblygwyd y meysydd llafur er mwyn ateb gofynion Dylunio a Thechnoleg ar draws y Cwricwlwm.

23

Mae pob cwrs yn cael ei asesu mewn dull tebyg:

- Tasg Reoledig Dylunio a Gwneud (tua 35 awr, 50%): Mae hwn yn cael ei gynnal ym mlwyddyn 11 ac mae'n seiliedig ar briff gan y bwrdd arholi.
- Arholiad (2 awr, 50%): Fel arfer mae disgyblion yn ceisio'r arholiad ar ddiwedd blwyddyn 10, gyda chyfle i ailsefyll ym mlwyddyn 11 i wella'r gradd os oes angen.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Mae'r Maes Llafur yn seiliedig ar y farn mai gweithgaredd ymarferol yw Dylunio a Thechnoleg, ac mai datblygu gallu'r ymgeiswyr i ddatrys nifer helaeth o broblemau cynllunio drwy ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau a ddysgwyd yn y pwnc yw'r nod. Bwriad y maes llafur yw datblygu gallu'r ymgeisydd o safbwynt Dylunio a Thechnoleg trwy ddilyn gweithgareddau hyblyg ac amrywiol.

Cynlluniwyd maes llafur digon eang, cytbwys a pherthnasol i sicrhau bod diddordebau'r holl ddisgyblion yn cael eu bodloni, a hefyd bod eu cymhellion i ddysgu yn cael eu cynnal. Mae modd defnyddio sawl, agwedd o'r cwrs presennol ar gyfer yr arholiad T.G.A.U. oherwydd yr adnoddau eang a'r amrywiol gyfleoedd sydd wrth law. Trefnir y cwrs sy'n arwain at yr arholiad hwn fel bod yr ymgeiswyr yn cael cyfle i ddatrys problemau cynllunio yn eu cyd-destun. Cânt gyfle i ddadansoddi'r problemau cynllunio a gwneud cynhyrchion addas i anghenion pobl, ac yna cânt arfarnu eu gwaith eu hunain. Anogir hwy i ystyried gwerthoedd dynol ac agweddau amrywiol sy'n rhan o gymdeithas aml ddiwylliannol. Datblygir ymwybyddiaeth economaidd a hefyd astudio'r berthynas rhwng technoleg a'r gymdeithas.

FASIWN A THECSTILAU

Mae'r cwrs hwn yn rhoi ymwybyddiaeth eang o fyd tecstilau a ffasiwn. Mae'n annog ymwybyddiaeth o gynllunio ac yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion i arbrofi eu syniadau. Cynlluniwyd y cwrs o gwmpas gwaith ymarferol ac ysgrifenedig. Bydd yr ymgeiswyr yn dilyn agwedd arbennig er mwyn cyflwyno eu cywaith terfynol. Rhaid deall pwysigrwydd dylunio ym myd diwydiant.

Dulliau asesu

- (i) Tasg Reoledig Dylunio a Gwneud - Prosiect sydd yn cynnwys 15 tudalen A3 o ymchwil, dylunio, datblygu a gwerthuso syniadau, a hefyd eitem o decstilau wedi ei chreu. Mae 30 awr yn cael ei osod ar gyfer gwneud hyn, fel arfer tua 15-18 am y gwaith papur a 10-12 am yr ymarferol. Mae'r bwrdd arholi yn cynnig 3 Briff gwahanol bob blwyddyn a gall y disgyblion ddewis eu hunain pa un sydd fwyaf addas ar gyfer eu sgiliau hwy. Gwneir y prosiect yn ystod Blwyddyn 11 ac mae'n werth **50%** o'r marciau terfynol.
- (ii) **Arholiadau terfynol** sydd yn 2 awr o hyd. Mae'r papur wedi ei rannu yn 8 rhan a gofynnir cwestiynau ar bob agwedd o wybodaeth am Decstilau. Mae'n werth **50%** o'r marc terfynol. Rydym wedi bod yn rhoi'r disgyblion i mewn am yr arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 10 ac os ydynt yn ddigon llwyddiannus, ni fydd angen iddynt ail-eistedd yr arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 11, ond os nad ydynt yn hapus gyda'u canlyniad, yna mae'n bosib ail-eistedd yr arholiad.

LLETYGARWCH AC ARLWYO

CBAC DYFARNIAD LEFEL 1/2 MEWN LLETYGARWCH AC ARLWYO

Mae'r sector lletygarwch ac arlwyio yn cynnwys yr holl fusnesau sy'n darparu bwyd, diodydd, a/neu gwasanaethau llety. Mae hyn yn cynnwys bwytai, gwestai, tafarndai a bariau. Mae hefyd yn cynnwys cwmnïau hedfan, atyniadau twristiaeth, ysbytai a lleoliadau chwaraeon; busnesau lle nad lletygarwch ac arlwyio yw'r prif wasanaeth ond mae'n gynyddol bwysig i'w llwyddiant. Yn ôl y British Hospitality Association, lletygarwch ac arlwyio yw pedwerydd diwydiant pwysicaf Prydain ac yn cyfri am tua 10% o'r holl weithlu.

Dyluniwyd Dyfarniad Lefel 1/2 Lletygarwch ac Arlwyio CBAC i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion a cholegau sydd eisieu dysgu am y sector galwedigaethol hwn a'r potensial y gallai ei gynnig iddynt ar gyfer eu gyrfaedd neu astudiaeth bellach. Mae'n addas yn bennaf fel sail i astudiaeth bellach. Byddai'r astudiaeth bellach hon yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n cefnogi eu cynnydd i gyflogaeth.

Mae'r dyfarniad yn cael ei raddio fel L1 Llwyddo (Gradd D a llai), L2 Llwyddo (Gradd C), L2 Teilyngdod (gradd B), L2 Rhagoriaeth (Gradd A), L2 Rhagoriaeth* (Gradd A*). Mae'r graddau yma yn cyfateb i'r un pwyntiau â chysiau TGAU.

Dyma strwythur y cymhwyster:

Uned 1 Y Diwydiant Lletygarwch ac Arlwyio. Arholiad 40% - Blwyddyn 10

DD1 Deall yr amgylchedd y mae darparwyr lletygarwch ac arlwyio yn gweithredu o'i fewn - disgrifio strwythur y diwydiant lletygarwch ac arlwyio, dadansoddi anghenion swyddi disgrifio ac amodau gwaith o fewn y diwydiant arlwyio a lletygarwch, adnabod gwahanol rolau swyddi yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyio, egluro'r ffactorau sy'n effeithio ar lwyddiant darparwyr lletygarwch ac arlwyio

DD2 Deall sut mae darpariaeth lletygarwch ac arlwyio yn gweithio - disgrifio gweithrediad cegin/ blaen tŷ, esbonio sut mae darpariaeth lletygarwch ac arlwyio yn bodloni anghenion cwsmeriaid.

DD3 Deall sut mae darpariaeth lletygarwch ac arlwyio yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch - cyfrifoldebau iechyd personol yn y gweithle - deddfwriaethau, risgiau iechyd a diogelwch.

DD4 Gwybod sut y gall bwyd achosi salwch - achosion salwch, deddfwriaethau bwyd, rôl swyddog yr amgylchedd, bacteria gwenwyn bwyd, symptomau salwch achosir gan fwyd.

DD5 Gallu cynnig darpariaeth lletygarwch ac arlwyio i ddiwallu gofynion penodol - adolygu ac argymhell darpariaeth.

Uned 2 Lletygarwch ac Arlwyio ar Waith - 60% - Gwaith Cwrs ac arholiad

DD1 - Maetheg - macro a micro -faethynnau, priodweddion, esbonio nodweddion lefel maeth anfodhaol, esbonio sut mae dulliau coginio yn effeithio ar werth maeth .

DD2 Deall y broses o gynllunio bwydlenni - esbonio ffactorau i'w hystyried wrth gynnig prydau ar gyfer bwydlenni, esbonio sut mae prydau ar fwydlen yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol, esbonio sut mae prydau ar fwydlen yn bodloni anghenion cwsmeriaid o ran maetheg a ffactorau organoleptig. cynllunio'r broses o gynhyrchu prydau bwyd ar gyfer bwydlen

DD3 Gallu coginio prydau bwyd - defnyddio technegau i baratoi, coginio nwyddau bwyd drwy rheoli ansawdd. cwblhau prydau gan ddefnyddio technegau cyflwyno, defnyddio arferion diogelwch bwyd .

Dilyniant: Ar ôl astudio'r cwrs yma, mae sawl llwybr addas yn bodoli gan gynnwys cyrsiau lefel 3 mewn lletygarwch, arlwyio, maeth, iechyd a gofal, twristiaeth a gofal plant.

ADDYSG GORFFOROL

Drwy astudio TGAU Addysg Gorfforol bydd dysgwyr yn caffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddatblygu a chynnal eu perfformiad mewn gweithgareddau corfforol a deall y manteision i iechyd, ffitrwydd a lles. Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r ffactorau sy'n greiddiol i weithgaredd corfforol a chwaraeon ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad.

Bydd dysgwyr yn perfformio'n effeithiol mewn gweithgareddau corfforol gwahanol drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau a dewis a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol. Drwy astudio TGAU Addysg Gorfforol bydd dysgwyr yn:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r ffactorau sy'n greiddiol i weithgaredd corfforol a chwaraeon ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad
- deall sut mae'r cyflwr ffisiolegol a seicolegol yn effeithio ar berfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- datblygu eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso i wella perfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- deall y cyfraniad mae gweithgaredd corfforol a chwaraeon yn ei wneud i iechyd, ffitrwydd a lles
- deall dylanwadau diwylliannol gymdeithasol allweddol sy'n gallu effeithio ar gysylltiad pobl â gweithgaredd corfforol a chwaraeon yng Nghymru a'r byd ehangach.

Cynllun Asesu

<p>Uned 1: Cyflwyniad i addysg gorfforol Arholiad ysgrifenedig: 2 awr Asesir dysgwyr drwy amrywiaeth o gwestiynau byr ac estynedig. Bydd y cwestiynau yn seiliedig ar ysgogiadau clyweled a ffynonellau eraill.</p>	50%
<p>Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol Asesir dysgwyr mewn tri gweithgaredd gwahanol yn rôl perfformiwr mewn o leiaf un gamp ar gyfer unigolyn, un gamp ar gyfer tîm ac un arall. Bydd un gweithgaredd yn brif weithgaredd fydd â rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd.</p>	50%

- Mae gweithgareddau tîm yn cynnwys Pêl-droed, Pêl-fas, Pêl-fasged, Criced, Hoci, Lacrosse, Pêl-rwyd, Rownderi, Rygbi'r gynghrair, Rygbi'r undeb, Rygbi saith bob ochr, Pêl-foli.
- Mae gweithgareddau unigol yn cynnwys Athletau, Traws-gwlad, Beicio, Deifio, Golff, Gymnaesteg, Jwdo, Sgïo, Sboncen, Nofio, Codi pwysau, Trampolinio.
- Gall gweithgareddau fel Dawns, Badminton, Tennis, Tennis Bwrdd, Hwyllo a Dringo gael eu hystyried yn rhai unigol neu dîm.

- Rhaid i unrhyw weithgaredd nad yw i'w weld yn y fanyleb gael ei gymeradwyo gan CBAC. Gall ymgeiswyr gynnig uchafswm o ddau weithgaredd oddi ar y safle i'w hasesu. Gweithgareddau oddi ar y safle yw'r rhai nad ydynt yn digwydd ar gampws yr ysgol a lle na chaiff yr ymgeiswyr eu goruchwyllo, eu hyfforddi a'u hasesu gan athro/athrawes Glantaf.
- Mae'r asesiad ymarferol yn cyfrif dros y ddwy flynedd o'r cwrs felly mae'n hanfodol fod pob ymgeisydd yn mynychu ymarferion, gemau a chystadlaethau o'u dewisiadau yn gyson yn ystod y cyfnod.

BTEC ADDYSG GORFFOROL: Gellid cynnig cwrs BTEC sydd yn asesu ar sail waith cwrs dros y dwy flynedd. Ceir manylion pellach o'r pennaeth adran.

Peirianeg Ceir

IMIAL Lefel 2 Diploma Arolygi cerbyd (VRQ)

Bydd y disgyblion ar y cwrs yma, yn dysgu sgiliau peirianeg ceir gan gynnwys sut i gynnal a chadw, ac atgyweirio ceir. Mae hyn yn golygu byddant yn dysgu sut i weithio ar geir newydd sbon a cheir clasurol.

Mae'r cwrs yn cyflwyno sgiliau o safon a gydnabyddir gan sefydliadau blaenllaw a byd-eang y diwydiant ceir (e.e. Ford).

27

Bydd y cwrs yma yn cael ei gynnal ar safle Academi Ceir Ford yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, (bydd yr ysgol yn trefnu trafndiaeth o'r ysgol ac yn ôl). Bydd rhaid i'r disgyblion ddewis y pwnc yma mewn 2 colofn opsiwn, bydd hyn yn galluogi iddynt dreulio diwrnod yr wythnos yn yr Academi ceir.

Mae'r cymhwyster galwedigaethol yma yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgybl ddatblygu sgiliau ac ennill gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol a fydd yn cefnogi dilyniant a mynediad i'r diwydiant ceir.

Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr i astudio theori ac agweddau ymarferol o ystod o gerbydau a gweithdrefnau chynnal a chadw e.e.:

- Cynnal a chadw cerbydau ysgafn arferol, gan gynnwys systemau injan.
- Arolygu, atgyweirio ac ailosod cerbydau ysgafn: teiars perfformiad safonol ac uchel.
- Cynnal cerbydau ysgafn a phedwar aliniad olwyn.
- Arolygu ac ailosod cerbydau ysgafn: cydrannau gwacáu, damperi atal dros dro a ffynhonnau, batris cerbydau, chydrannau a systemau brecio.

Mae dysgwyr hefyd yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth eang o iechyd a diogelwch yn y gweithle, gan gytuno ar anghenion cerbydau cwsmeriaid a sgiliau eraill sy'n gysylltiedig â gweithio mewn garej.

Asesu

Mae'r asesiad yn cynnwys dwy elfen:

- tasgau ymarferol
- profion ar-lein

Mae'r cymhwyster yma yn cyfateb i 2 TGAU.

Trin Gwallt a Therapi Harddwch

Tystysgrif VTCT Lefel 2 mewn Trin Gwallt a Therapi Harddwch (VRQ)

Mae hon yn Wobr dechnegol, yn benodol ar gyfer disgyblion 14-16 oed. Mae'r cymhwyster hwn yw cefnogi pobl ifanc i:

- Ddatblygu dealltwriaeth eang a chynhwysfawr o'r sector gwallt a harddwch
- Datblygu gwybodaeth sy'n rhan o'r sector galwedigaethol cyfan a diwydiannau cysylltiedig
- Datblygu astudiaeth academiaidd a sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn cefnogi dilyniant o fewn y sector gwallt a harddwch

Mae trin gwallt a therapi harddwch wedi bod ac yn parhau i fod yn faes galwedigaethol hynod boblogaidd, sydd yn ysbrydoli llawer o bobl ifanc. Nod y cymhwyster hwn yw defnyddio'r sector gwallt a harddwch fel cyfrwng i ddatblygu dysgwyr yn fwy cyffredinol fel eu bod yn barod ac yn meddu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ddilyn gyrfa mewn unrhyw gyd-destun.

Beth fydd dysgwyr yn ei astudio fel rhan o'r cymhwyster hwn?

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys dwy uned orfodol y gellir eu cymhwyso i unrhyw sector neu faes galwedigaethol. Yn y cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn defnyddio trin gwallt a therapi harddwch a diwydiannau cysylltiedig (hy adwerthu, hamdden, ffasiwn, marchnata, y cyfryngau, busnes) i ddatblygu eu hunain ac, yn arbennig, y sgiliau a'r priodoleddau gwerthfawr gan gyflogwyr, colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch .

Mae'r unedau sy'n ffurfio'r cymhwyster hwn yn cynnwys:

- Deall y sector gwallt a harddwch (gorfodol) - yn yr uned hon bydd dysgwr yn datblygu dealltwriaeth o strwythur a phwysigrwydd y sector gwallt a harddwch. Byddant hefyd yn dysgu am y cynnyrch a ddefnyddir, a gwasanaethau a thriniaethau a ddarperir ar draws y sector yn ogystal â chyfleoedd gyrfa.
- Prosiect ymchwil Gwallt a harddwch (gorfodol) - yn yr uned hon bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i gynllunio prosiect ymchwil gwallt a harddwch. Bydd y dysgwyr wedyn yn llunio, a chynnal ymchwil i faes pwnc penodol o'r sector gwallt a harddwch.

Mae'r cymhwyster yma yn cyfateb i 2 TGAU.

Nodiadau
